YSGOL DYFFRYN CONWY

# Cyngor i Rieni / Gwarcheidwaid

## Gwneud y gorau o Nosweithiau Rhieni



# Tabl Cynnwys


01 Gwneud y defnydd gorau o Nosweithiau Rhieni

02 Arweiniad Noson Rieni

03 Syniadau da ar gyfer Noson Rieni

04 Rhai cwestiynau i'w gofyn yn y Noson Rieni




# Gwneud y mwyaf o Nosweithiau Rhieni



- Pwrpas y noson yw ichi gwrdd ag athrawon eich plentyn a gwirio bod pawb yn deall y cynnydd y mae eich plentyn yn ei wneud, gan gynnwys eu cryfderau a thrafod meysydd i'w gwella.

- Bydd athrawon yn cyfeirio at adroddiadau cynnydd eich plentyn, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi eu cael gyda chi er mwyn trafod y cynnydd.

- Rydym yn annog dysgwyr i fynychu'r cyfarfodydd hyn gyda'u rhieni / gwarcheidwaid fel bod pawb yn clywed yr un negeseuon, ond nid yw hyn yn hanfodol.

**Er mwyn i'r nosweithiau hyn redeg yn esmwyth, rydym wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ac arweiniad a fydd, gobeithio, o gymorth.**

# Arweiniad Noson Rieni

- Gwneir apwyntiadau ar-lein (SchoolCloud) ac mae slotiau yn ystod oriau brig (5yh i 6yh) yn tueddu i fynd gyntaf.
- Cofiwch fod rhai aelodau o staff yn addysgu mwy nag un dosbarth mewn grŵp blwyddyn a gall slotiau fynd yn gyflym, felly archebwch yn gynnar. Fe'ch hysbysir o leiaf 3 wythnos cyn y noson.
- Cynhelir rhai Nosweithiau Rhieni yn rhithiol ac eraill wyneb yn wyneb gyda phob slot yn para tua 4 neu 5 munud.
- Rydym yn gofyn i staff gadw at yr amseroedd hyn gan ein bod am roi cyfle i bob rhiant / warcheidwad wneud apwyntiadau a siarad â'r athrawon.
- Os oes pryder penodol a'ch bod yn teimlo bod angen apwyntiad hirach arnoch, gallwch, yn y mân cyntaf, gysylltu â'r Arweinydd Cynnydd.



# Arweiniad Noson Rieni

- Os na allwch wneud apwyntiad gydag athro gallwch ofyn am adborth. Darperir yr adborth hwn ar ôl y Noson Rieni.

- Tra bod disgwyl i'r holl staff fynychu Nosweithiau Rhieni, gofynnwn i chi ddeall ei bod hi'n anochel bod aelodau staff yn absennol ar adegau. Gall rhieni / gwarcheidwaid gysylltu â'r aelodau hyn o staff trwy e-bost ysgol, (cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk) i ofyn am adborth.

**Rydym bob amser yn falch o'r niferoedd sy'n mynychu Nosweithiau Rhieni a hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth. Gobeithiwn, trwy ddilyn yr arweiniad hwn, y gall y nosweithiau redeg yn effeithlon a llyfn.**

**Peidwich ag oedi i gysylltu â'r Arweinydd Cynnydd perthnasol os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.**



# Syniadau da ar gyfer Noson Rieni

**1**

**Peidiwch ag arbed unrhyw faterion mawr ar gyfer Noson Rieni. Cysylltwch ag Arweinydd Cynnydd eich plentyn ar unwaith fel y gallwch weithio gyda'ch gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a gofyn beth allwch chi ei wneud i gefnogi dysgu eich plentyn gartref.**

**2**

**Mae amser yn fyr, felly defnyddiwch ef yn dda. Cynlluniwch y cwesitynau rydych am eu gofyn ymlaen llaw, ysgrifennwch nhw i lawr er mwyn cyfeirio atynt.**

**3**

**Bydd athrawon eisiau bod yn agored ac yn onest gyda chi am gynnydd eich plentyn. Byddem yn eich annog i werthfawrogi eu barn onest am gynnydd eich plentyn.**

# Syniadau da ar gyfer Noson Rieni

4

**Darllenwch drwy Adroddiad Cynnydd diweddaraf eich plentyn i atgoffa eich hunain o'u cryfderau a'u heriau.**

5

**Mae cael y gorau o addysg eich plentyn yn bartneriaeth barhaus rhyngoch chi, eich plentyn a'r ysgol. Gofynnwch i'ch plentyn o flaen llaw os oes unrhyw beth yr hoffai i chi ei drafod gyda'r athro.**



# Rhai cwestiynau gallwch eu gofyn

Beth alla i wneud gartref i gefnogi'r dysgu?

A yw fy mhlentyn yn gwneud y cynnydd y byddech yn ei ddisgwyl?

Beth ydych chi'n teimlo yw cryfderau fy mhlentyn?

A oes unrhyw feysydd lle mae angen cymorth ychwanegol ar fy mab/merch?

A oes unrhyw beth sydd wedi gweithio'n llwyddianus i sicrhau bod fy mab/merch yn cymryd rhan yn eu dysgu?

A oes unrhyw beth sy'n peri pryder chi?

@ysgdyffrynconwy

@ysgdyffrynconwy

Ysgol Dyffryn Conwy